Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 16 Mawrth 2021

Presennol: Cyng. Sharon Parry (Cadeirydd)
Cyng. Celfyn Furlong
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

1. Ymddiheuriadau: Cyng. Siân Enfys Jones, Gordon Owen a Beryl Salisbury.

2. Datganiad o ddiddordeb: - Cyng. Einir Thomas eitem 7.2 cais cynllunio FPL/2021/39. Cyng. Gwilym O. Jones eitem 9.1 – rhoddion Eglwys Santes Fair, Y Rhwyd a Neuadd Bentref Caergeiliog. Cyng. Sharon Parry eitem 9.1 – rhoddion i MônFM a Hosbis Dewi Sant.

3. Cofnodion cyfarfod 16 Chwefror 2021
Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gwilym O. Jones.)

4. Materion yn codi o'r cofnodion:

4.1 Cae Chwarae;- Yn dilyn trafodaeth am yr archwiliad diweddaraf, cytunwyd:
I brynu pecyn atgyweirio 'wet pour' i'w ddefnyddio pan fydd y tywydd wedi gwella.
I barhau i ddefnyddio gwasanaethau GMS Ground Maintenance i dorri'r glaswellt
I brynu arwydd 'cŵn' arall a dau arwydd 'dim ysmygu' i'w gosod yno.

4.2 Llochesi Fws:- Byddai Cyng. William Victor Owen a'r Clerc yn adrodd yn ôl unwaith y bydd y gwaith arolygu wedi'i gwblhau.

4.3 Tipio Sbwriel / Tipio Anghyfreithlon: - Roedd Cyng. Dyfed Williams yn awyddus iawn i gael casglu sbwriel o amgylch y pentrefi, roedd cefnogaeth i hyn ond byddai'n rhaid sicrhau fod unrhyw drefniant ar ran y Cyngor yn cael ei redeg yn unol â chanllawiau iechyd a diogelwch.

4.4 Llwybrau: - Byddai'r clerc i ofyn am ddyfynbrisiau ar gyfer torri'r llwybrau.

4.3 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim

5. Materion Plwyfol Eraill - dim

6. Penderfyniadau Cynllunio:

6.1 **VAR/2020/60 Ty Newydd, Llanfihangel yn Nhowyn**
Cais o dan Adran 73A i ddiwygio amod (08) (Cynllun tirwedd) a (09) (Cynlluniau a Gymeradwywyd) o caniatâd cynllunio rhif 32C128F (Codi annedd) er mwyn caniatáu dyluniad diwygiedig a chyflwyno cynllun tirlunio ar ôl i'r gwaith ddechrau - Caniatâd

Llofnod……Cadeirydd…….

7. Ceisiadau Cynllunio

7.1 **FPL/2020/240 at Penrhyn, Ffordd Minffordd, Caergeiliog**
Cais llawn ar gyfer cadw a chwblhau' r bloc stablau – dim sylwadau.

7.2 **FPL/2021/39 The Stables, Cymyran Hotel Llanfair yn Neubwll**
Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw newid defnydd o'r stabl presennol i garej masnachol i drwsio cerbydau. - Dim gwrthwynebiad. Roedd gan yr ymgeisydd fusnes lleol wedi ei sefydlu ers rhai blynyddoedd, roedd yn darparu cyflogaeth ac felly o fantais i'r economi leol. Roedd mynediad da i'r safle ac roedd yn annhebygol o gael unrhyw effaith andwyol ar yr eiddo cyfagos. Ni welwyd gwrthwynebiad gan drigolion lleol

7.3 **VAR/2021/1 at Fron Wen, Ffordd Minffordd Road, Llanfair Yn Neubwll**
Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (05)(Deunydd to Llechi Naturiol) o caniatâd cynllunio rhif 32C196A (ddymchwel yr annedd presennol ac ail-godi annedd newydd yn ei le, ymestyn y cwrtil ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau) er mwyn newid dewis materol y to - dim sylwadau.

8. Materion Ariannol

Cyflwyno a chadarnhau'r adroddiad ariannol am y cyfnod rhwng 1.1.2021 a 28.2. 2021 ynghyd â rhagolwg o'r gwariant hyd at Fawrth 2021.

Cyfrif Cyfredol £25,803.14, Cyfrif Cadw £3,938.77

8.1 Penodi Archwilydd Mewnol

Cytunwyd i ofyn I Mr Hughie Lloyd Jones wneud archwiliad o gyfrifon 2020/21.

9. Taliadau i'w gwneud

Cyflog (Chwefror)	£243.61	Dyfed Williams (Lwfans Aelodau)	£150	

Cytunwyd i dalu y rhain

9.1 Rhoddion – cytunwyd i wneud taliadau fel a ganlyn:

1.	MônFM	£100	Local Government Act 1972, s. 145
2.	Hosbis Dewi Sant	£150 ac ail daliad o £150 am y siec ddiwethaf oedd heb ei chyflwyno o achos y pandemig COVID.	Local Government Act 2000, s.2
3.	Ambiwlans Awyr Cymru	£100	Local Government Act 2000, s.2
4.	Eglwys Santes Fair	£50	Local Government Act 1972,

Llofnod……Cadeirydd…….

	Llanfair yn Neubwll		s. 137
5.	Y Rhwyd	£150	Local Government Act 1972, s. 145
6.	Neuadd Bentref Caergeiliog.	£2,500	Local Government Act 1972, s. 19

10. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:

10.1 Canllaw Diogelwch Cyber

10.2 Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Mawrth.

Dywedodd Cyng. Einir Thomas ei bod hefyd wedi dilyn yr holl hyfforddiant sylfaenol oedd ar-lein gan Un Llais Cymru.

10.3 Holiadur Medrwn Môn

10.4 Newyddlen Etholiadol LlC - Chwefror

10.5 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – cychwyn, rhoi ar waith a chanllawiau

10.6 Crynodeb o brif ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer y Sector Cynghorau Cymuned a Thref

10.7 Newyddlen Pwyllgor Safonau ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned

10.8 Deddfwriaeth Ddi-fwg Newydd yng Nghymru

10.9 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2021 i 2022

10.10 Cynllun atal sbwriel a thipio anghyfreithlon i Gymru | Llyw.Cymru

11. Adroddiadau Cynghorwyr

11.1 **Cyng. Celfyn Furlong**

Gofynnodd am weld adroddiad o'r ymarfer GanBwyll ddiweddar.

12. Cyfarfod Nesaf 20 Ebrill 2021

Llofnod……Cadeirydd…….